



Arolwg Cenedlaethol Cymru: Prif ganlyniadau, Ebrill 2017 – Mawrth 2018

20 Mehefin 2018
SFR 48/2018

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn arolwg wyneb yn wyneb o dros 11,000 o oedolion 16 oed neu hŷn wedi'u dewis ar hap, ac mae'n cael ei gynnal ledled Cymru. Mae'n ymwneud ag amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio ar bobl a'u hardal leol. Defnyddir rhai o'r canlyniadau i fesur y cynnydd tuag at nodau [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015](#). Dim ond detholiad o'r canlyniadau a geir yma. Mae tablau mwy manwl o'r canlyniadau wedi'u cyhoeddi, ac caiff canlyniadau manylach eu cyhoeddi drwy'r flwyddyn.

Yn y datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys canlyniadau ar y pynciau canlynol:

- [Bodlonrwydd ar wasanaethau iechyd](#)
- [Bodlonrwydd ag addysg](#)
- [Mynediad at wasanaethau a chyfleusterau](#)
- [Gwasanaethau awdurdod lleol](#)
- [Ymddygiad iach](#) (BMI, deiet, ysmegu, yfed, ac ymarfer corff)
- [Cymryd rhan mewn chwaraeon a galw cudd](#)
- [Hawliau plentyn](#)
- [Celfyddydau, amgueddfeydd, treftadaeth, llyfrgelloedd, ac archifau](#)
- [Agwedd at yr iaith Gymraeg](#)
- [Llygredd sŵn](#)
- [Tlodi](#) (gan gynnwys tlodi bwyd)
- [Defnydd a mynediad at y rhyngwryd](#)
- [Gwirfoddoli](#)
- [Bodlonrwydd ar y swydd](#)
- [Unigrwydd](#)



Mae gwybodaeth am y rhesymau dros gynnwys pob pwnc yn yr arolwg ar gael ar ein [gwefan](#).

Mae nifer o gwestiynau a ofynnwyd yn 2017-18 sy'n cael eu trafod yn y datganiad yma hefyd wedi cael eu cynnwys yn yr arolygon blaenorol. Ar gyfer y cwestiynau hyn, nodir unrhyw newidiadau dros amser sy'n arwyddocaol.

Mae canlyniadau ar fwy o bynciau, gan gynnwys tablau a siartiau mwy manwl, ar gael yn ein [dangosydd canlyniadau](#) rhyngweithiol. Mae canlyniadau sy'n cael eu defnyddio fel dangosyddion cenedlaethol ar gyfer [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#) i'w gweld fel data agored ar [StatsCymru](#).

Y datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno prif ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18.

Cynhaliwyd yr arolwg ar ei ffurf wreiddiol am y tro cyntaf yn 2012. O 2016-17, mae wedi cymryd lle [Arolwg Iechyd Cymru](#), [Arolwg y Celfyddydau yng Nghymru](#), [Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru](#) a'r [Arolwg Oedolion Egniol](#).

Mae mwy o wybodaeth am fethodoleg, pynciau a diffiniadau ar gael yn [Gwybodaeth allweddol am ansawdd](#).

Mae'r [holiadur llawn](#) a'r manylion am [gyhoeddiadau'r dyfodol](#) ar gael ar [dudalen we'r Arolwg Cenedlaethol](#).

Bodlonrwydd ar wasanaethau iechyd

Gofynnwyd i bobl â phrofiad diweddar o ddefnyddio **gwasanaethau iechyd** am eu bodlonrwydd ar y gwasanaethau hyn.



Roedd **86%** yn fodlon ar y gofal gawson nhw gan eu **meddyg teulu**



Roedd **90%** yn fodlon ar y gofal gawson nhw yn eu hapwyntiad **ysbyty** GIG diweddaraf.

Yn debyg i Arolwg Cenedlaethol y blynyddoedd diwethaf, roedd y mwyafrif helaeth o bobl yn fodlon ar y gwasanaethau hyn.

Fodd bynnag, mae canran a oedd yn fodlon¹ ar y gofal a gawsant gan eu meddyg teulu wedi gostwng o 90% yn 2016-17 i 86% yn 2017-18, a'r canran sy'n fodlon â'u gofal yn eu hapwyntiad ysbyty NHS diwethaf wedi gostwng o 92% yn 2014-15 i 90% yn 2017-18². Roedd y lefelau bodlonrwydd uchaf i'w gweld ymysg pobl 75 oed neu hŷn.

Roedd **42%** yn ei chael yn **anodd** i wneud **apwyntiad cyfleus** yn eu **meddygfa**; Mae'r gyfran hon wedi cynyddu dros amser o 33% yn 2012-13 (38% yn 2016-17).³

[Pam rydyn ni'n gofyn y cwestiynau hyn](#)

Bodlonrwydd ag addysg

Gofynnwyd i rieni plant sy'n mynd i'r **ysgol gynradd neu'r ysgol uwchradd** am eu bodlonrwydd ar ysgol eu plentyn



Roedd **88%** yn fodlon ar **ysgol gynradd** eu plentyn



Roedd **75%** yn fodlon ar **ysgol uwchradd** eu plentyn.

Mae lefelau boddhad ar gyfer ysgolion cynradd wedi gostwng yn raddol dros amser, o 92% yn 2012-13 i 88% yn 2017-18. Ar gyfer ysgolion uwchradd, bu gostyngiad sylweddol mewn boddhad dros y flwyddyn ddiwethaf: o 85% yn 2016-17 i 75% yn 2017-18.

Ar gyfer y cwestiynau eraill a ofynnwyd am ysgolion, roedd rhieni yn fwy bodlon âg ysgolion cynradd nag ysgolion uwchradd.

- **85%** o rieni plant **ysgol gynradd** yn teimlo fod yr ysgol yn sicrhau bod holl **anghenion addysgol eu plentyn yn cael eu darparu**. Mae hyn wedi gostwng o 91% yn 2013-14.
- **86%** yn cytuno fod yr ysgol yn **paratoi** eu plentyn yn dda **ar gyfer y cam nesaf o addysg**⁴; a
- **91%** fod yr ysgol yn helpu eu plentyn i ddatblygu'n **unigolyn cyflawn**.

Y canrannau cyfatebol ar gyfer plant **ysgol uwchradd** oedd **73%, 72% a 74%** yn y drefn honno.

¹ Grŵpiwyd "bodlon iawn" ac "eithaf bodlon" gyda'i gilydd i roi ffigurau boddhad. Yn gyffredinol o fewn y ffigurau ar gyfer 2017-18 roedd mwy o bobl yn "eithaf bodlon" a llai yn "fodlon iawn" o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

² Does dim newid arwyddocaol ers 2016-17, pan 91% oedd yn fodlon ar y gofal a gawsant yn yr apwyntiad ysbyty GIG diwethaf.

³ Roedd 38% yn ei chael yn anodd gwneud apwyntiad gyda'i meddyg teulu yn 2013-14, 37% yn 2014-15 a 38% yn 2016-17.

⁴ Hwn oedd y tro cyntaf, gofynnwyd y cwestiwn hwn felly ni ellir cymharu'r canlyniadau dros amser.

Mynediad at wasanaethau a chyfleusterau

[Pam rydyn ni'n gofyn y cwestiynau hyn](#)


Gofynnwyd i bobl am y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd o fewn pellter cerdded 15 i 20 munud o'u cartref. Dyma'r tro cyntaf i'r cwestiwn hwn gael ei gynnwys. Roedd **68%** yn fodlon bod **gwasanaethau a chyfleusterau da** ar gael yn eu hardal leol, ond dywedodd **3% nad oedd gwasanaethau na chyfleusterau** yn eu hardal.



Roedd **77%** yn fodlon ar eu gallu i gyrraedd neu ddefnyddio'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt⁵.

Dangoswyd rhestr o gyfleusterau a gwasanaethau i bobl, a gofynnwyd iddynt pa rai sydd ar gael yn eu hardal leol. Roedd gan **98%** un o'r gwasanaethau ar y rhestr o leiaf.

Siart 1: Gwasanaethau a chyfleusterau ar gael yn yr ardal leol



Roedd y rhai a oedd o fewn pellter cerdded i'r gwasanaethau lleiaf cyffredin (canolfan chwaraeon, clwb ieuenctid neu sinema) ychydig yn fwy bodlon na'r rheini sydd heb y gwasanaethau hyn yn eu hardal leol (**80%** o'i gymharu â **68%**).

⁵ Dangosydd Cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 24.


Gwasanaethau awdurdod lleol

Cafodd cwestiynau newydd eu cynnwys yn 2017-18 yn gofyn i bobl am eu barn ar ddod o hyd i wybodaeth am eu hawdurdod lleol. Roedd **75%** yn teimlo bod modd iddynt **ddod o hyd i wybodaeth** am eu hawdurdod lleol **yn y ffordd o'u dewis**.



Roedd **76%** yn credu eu bod yn gwybod sut mae **canfod pa wasanaethau** mae eu hawdurdod lleol yn eu **darparu**. Roedd hyn yn amrywio yn ôl awdurdod lleol o **67%** o bobl ym **Mlaenau Gwent** i **86%** o bobl yng **Ngwynedd**, fel y dangosir yn Siart 2.

Siart 2: Cyfran sy'n gwybod sut i ddarganfod pa wasanaethau mae eu hawdurdod lleol yn darparu



Ymddygiadau ffyrdd iach o fyw

Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cwestiynau am y pum ymddygiad ffyrdd iach o fyw canlynol⁶: Nid oedd unrhyw newid sylweddol yn y lefel o unrhyw un o'r 5 ymddygiad iach rhwng 2016-17 a 2017-18.



Dywedodd **19%** o oedolion eu bod yn **ysmygu**. Roedd ysmygu yn fwy cyffredin ymysg dynion a'r rheini mewn aelwydydd sy'n dioddef o amddifadedd materol, ac nid oedd mor gyffredin ymysg pobl dros 75 oed. Roedd **7%** yn defnyddio e-sigarêts.




Roedd **18% yn yfed mwy na'r canllaw wythnosol** (yn yfed mwy nag 14 uned bob wythnos ar gyfartaledd). Roedd yfed mwy na'r canllaw wythnosol yn fwy cyffredin ymysg dynion, oedolion canol oed a'r rheini sydd ag incwm uwch.



Roedd **23%** wedi bwyta o leiaf **pum dogn o ffrwythau a llysiau** y diwrnod blaenorol, sef y swm canllaw. Mae pobl mewn amddifadedd materol yn llai tebygol o fwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau bob dydd.



Roedd **53%** wedi gwneud **150 munud o weithgarwch corfforol** yn yr wythnos ddiwethaf, sef y swm canllaw. Roedd dynion yn fwy tebygol o fod wedi gwneud hynny na merched. Roedd **34%** yn anweithgar (yn weithgar am lai na 30 munud yn yr wythnos ddiwethaf). Roedd anweithgarwch yn fwyaf cyffredin ymysg oedolion hŷn a'r rheini mewn amddifadedd materol.



Roedd **60% dros eu pwysau neu'n ordew**; roedd **22%** yn **ordew**. Roedd dynion (66%) yn fwy tebygol na merched (54%) o fod dros eu pwysau neu'n ordew. Roedd y rheini mewn aelwydydd sy'n dioddef o amddifadedd materol yn fwy tebygol o fod dros eu pwysau neu'n ordew. Pobl rhwng 45 a 74 oed oedd fwyaf tebygol o fod yn ordew.

Dangosodd **10%** o oedolion llai **na dau o'r pum ymddygiad ffyrdd iach o fyw**⁷.

Dywedodd **70%** o oedolion eu bod mewn iechyd da neu da iawn; Mae hyn wedi gostwng o 72% yn 2016-17.

Cyflwynwyd cwestiynau newydd yn 2017-18 am y mathau o feddyginiaeth yr oeddent wedi'u prynu yn ystod y 4 wythnos ddiwethaf (hy heb bresgripsiwn). Roedd **54%** wedi prynu **meddyginiaethau confensiynol** (ee poenladdwyr, meddyginiaeth camdreuliad), **5%** wedi prynu **meddyginiaethau llysieuol**, **20%** wedi prynu ategion mwynau/fitaminau ac **nid oedd 39% wedi prynu unrhyw feddyginiaeth**.



⁶ 1) Peidio ag ysmygu, 2) Peidio ag yfed mwy na'r canllaw wythnosol 3) Bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol 4) Bod yn egniol yn gorfforol am 150 munud o leiaf yn yr wythnos ddiwethaf 5) cynnal pwysau iach.

⁷ Dangosydd Cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 3 – heb newis ers 2016-17.

Cymryd rhan mewn chwaraeon a galw cudd


Er mwyn monitro cyfranogiad oedolion mewn chwaraeon yng Nghymru, mae [Chwaraeon Cymru](#) wedi cynnwys set o gwestiynau am chwaraeon yn yr arolwg.

Roedd **59%** o bobl wedi cymryd rhan mewn rhyw fath o weithgaredd corfforol neu chwaraeon⁸ yn y 4 wythnos ddiwethaf. Y gweithgaredd oedd wedi cael ei wneud yn fwyaf cyffredin o lawer oedd **cerdded mwy na 2 filltir (33%** o bobl), wedi'i ddilyn gan fynychu dosbarthiadau ffitrwydd (**16%**), nofio dan do (**13%**) a loncian (**11%**).



Roedd **11%** o bobl yn **cymryd rhan** mewn gweithgaredd neu chwaraeon **tua unwaith yr wythnos, 8% dwywaith yr wythnos, a 32% tair gwaith yr wythnos o leiaf**.⁹ Mae cymryd rhan yn aml mewn chwaraeon wedi cynyddu ers 2016-17, pan oedd 29% yn cymryd rhan o leiaf dair gwaith yr wythnos.

Siart 3: Cymryd rhan mewn chwaraeon, o leiaf tair gwaith yr wythnos, yn ôl oedran



Roedd cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith yr wythnos neu fwy, yn amrywio yn ôl oedran o **51%** o'r rhai 16-24 oed i **8%** o bobl 75 oed a throsodd fel y dangosir yn Siart 3.

Gofynnwyd i bobl hefyd a fydden nhw'n hoffi gwneud mwy o unrhyw fath o chwaraeon. Roedd **55%** yn awyddus i wneud mwy o weithgareddau corfforol neu chwaraeon. Ymysg y mathau o weithgaredd sydd a'r galw mwyaf amdanynt mae nofio (**16%**), seiclo (**10%**) a'r gampfa neu ddosbarthiadau ffitrwydd (**9%**).

Hawliau plentyn

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn yn nodi'r hawliau sydd gan pob plentyn. I fesur ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r hawliau hyn, cynhwyswyd cwestiwn yn yr Arolwg Cenedlaethol yn gofyn i bobl faint wedi clywed am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn.

Dyweddodd **13%** eu bod **wedi clywed** amdanynt a bod **ganddynt syniad teg o'r hawliau**. Dyweddodd **21%** eu bod **wedi clywed** amdanynt ond **ddim yn siŵr o'r hawliau**; a dyweddodd **65%** eu bod **heb glywed am yr hawliau**.



⁸ Hefyd, gofynnwyd set ar wahân o gwestiynau a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar lefelau o weithgarwch corfforol (heb ystyried y math o weithgaredd)/ Gweler tudalen 4 y datganiad hwn.

⁹ Dangosydd Cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 38.

Celfyddydau, amgueddfeydd, treftadaeth, llyfrgelloedd, ac archifau

Gofynnwyd i bobl am eu hymweliadau â digwyddiadau celfyddydol, amgueddfeydd, llyfrgelloedd a safleoedd hanesyddol yng Nghymru. Yn ystod y 12 mis diwethaf:



Roedd **68%** wedi mynd i ddigwyddiad **celfyddydol**, a **22%** wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd celfyddydol.



Roedd **40%** wedi ymweld ag **amgueddfa** yn eu hamser eu hunain (97%), roedd **37%** wedi ymweld tair gwaith o flwyddyn o leiaf.



Roedd **63%** wedi ymweld â **safle hanesyddol**; ymysg y rheini a oedd wedi ymweld yn eu hamser eu hunain (98%), roedd **59%** wedi ymweld tair gwaith o flwyddyn o leiaf.



Roedd **34%** wedi ymweld â **llyfrgell** gyhoeddus, ymysg y rheini a oedd wedi ymweld yn eu hamser eu hunain (95%), roedd **74%** wedi ymweld tair gwaith o flwyddyn o leiaf.



Gofynnwyd cwestiwn newydd yn 2017-18, a oedd yn gofyn i bobl a oeddent wedi bod i **archifdy** yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd **5%** wedi; ac ymysg y rheini a oedd wedi ymweld yn eu hamser eu hunain yn hytrach nag at ddibenion gwaith (75% o ymwelwyr), roedd **28%** wedi bod tair gwaith o flwyddyn o leiaf.

Roedd **75%** o bobl wedi mynd i ddigwyddiadau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth, neu wedi cymryd rhan ynddynt, dair gwaith y flwyddyn o leiaf¹⁰.

Llygredd sŵn

Cafodd nifer o gwestiynau yn ymwneud â thai ac incwm eu cynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol am y tro cyntaf yn 2017-18. Roedd hyn er mwyn cefnogi'r [Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18](#) lle roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn rhoi sampl o gyfeiriadau ar ei gyfer¹¹. Roedd un cwestiwn yn ymwneud â lefelau sŵn. Gofynnwyd i bobl a oedd sŵn o tu allan eu cartref wedi bod yn eu poeni'n rheolaidd yn ystod y 12 mis diwethaf. Dywedodd **24%** ei fod wedi.



Ymysg y rhain¹², dywedodd **36%** bod y sŵn wedi'i achosi gan **gymdogion yn eu cartrefi** **47%** ei fod wedi'i achosi gan **gymdogion y tu allan i'w cartrefi**, a **45%** ei fod wedi'i achosi gan **draffig, busnesau neu ffatrïoedd**.

Roedd pobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol yn fwy tebygol na phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig o gael eu poeni gan sŵn. Roedd sŵn wedi poeni **27%** o bobl mewn ardaloedd **trefol**, o'i gymharu ag **18%** mewn ardaloedd **gwledig**. Roedd y rheini a oedd wedi cael eu poeni gan sŵn yn llai tebygol o lawer o fod yn **fodlon ar eu llety**. Dywedodd **72%** o bobl oedd heb gael eu poeni gan sŵn eu bod yn 'fodlon iawn' ar eu llety, o'i gymharu â **54%** o bobl a oedd wedi cael eu poeni gan sŵn.

¹⁰ Dangosydd Cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 35.

¹¹ Archwiliad ffisegol o 2,550 o dai, bydd y [canfyddiadau](#) ar gael ym mis Tachwedd 2018.

¹² Gallai pobl ddewis mwy nag un ateb, felly yw'r ffigurau yn adio i 100%.

Agwedd at yr iaith Gymraeg


Y brif ffynhonnell gwybodaeth ynghylch cyfran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yw'r Cyfrifiad; defnyddir yr Arolwg Cenedlaethol i fonitro'r tueddiad ymysg oedolion rhwng Cyfrifiadau.

Dywedodd **19%** o oedolion 16 oed neu hŷn eu bod yn gallu **siarad Cymraeg**. Mae **11%** yn gallu siarad Cymraeg **yn rhugl**. Dywedodd **12%** eu bod yn **gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau Cymraeg a'u bod yn siarad yr iaith bob dydd**.¹³



Yn 2017-18, cyflwynwyd set o gwestiynau er mwyn gofyn i bobl am eu barn ar y Gymraeg. Dangoswyd cyfres o ddatganiadau ynghylch y Gymraeg i siaradwyr Cymraeg a phobl ddi-Gymraeg, a gofynnwyd iddynt a oeddent yn cytuno â'r datganiadau ai peidio. Mae'r ymatebion i'w gweld yn Siart 4.

Siart 4: Agwedd at yr iaith Gymraeg yn ôl gallu siarad Cymraeg



* Pan ofynnwyd i bobl a oeddent yn gallu siarad Cymraeg, dywedodd 12% nad oeddent yn gallu ond bod ganddynt rywfaent o sgiliau iaith Gymraeg. Gofynnwyd i'r bobl hyn a hoffent allu siarad Cymraeg 'yn well'.

Roedd siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol na phobl ddi-Gymraeg o gytuno â'r datganiadau.

Roedd **86%** yn teimlo fod yr **iaith yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi**. (**97%** o siaradwyr Cymraeg ac **84%** o bobl ddi-Gymraeg) Roedd cyfran y siaradwyr Cymraeg a oedd yn 'cytuno'n gryf' yn sylweddol yn uwch.

Teimlodd **67%** fod **angen fwy o ymdrech gael ei wneud i gefnogi'r Gymraeg**, (**86%** o siaradwyr Cymraeg a **63%** o bobl ddi-Gymraeg).

Dywedodd **62%** o bobl ddi-Gymraeg yr **hoffent allu siarad yr iaith**, ac ymysg y rhai oedd â rhywfaint o sgiliau yn y Gymraeg yn barod, roedd **85%** yn **dymuno ei siarad yn well**.

Roedd pobl yn llai tebygol o gytuno â'r datganiad 'Bydd yr iaith Gymraeg yn **gryfach mewn 10 mlynedd**'. Roedd **40%** yn cytuno gyda'r datganiad (**49%** o siaradwyr Cymraeg a **38%** o bobl ddi-Gymraeg).


¹³ Dangosydd Cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 36.

Tlodi

Cafodd **16%** o **oedolion** yng Nghymru eu dosbarthu fel bod mewn **amddifadedd materol**¹⁴, (hynny yw, yn methu fforddio pethau sylfaenol fel cadw'r tŷ yn gynnes). Mae **7%** o **bensiynwyr** yn byw mewn amddifadedd materol ac mae gan **7%** o rieni **blant** sy'n byw mewn amddifadedd materol.




Siart 5: Amddifadedd materol yn ôl oedran



Roedd pobl hŷn yn llai tebygol o fod mewn amddifadedd materol na'r rheini yn y grwpiau oedran ifancach. Gweler Siart 5.

Dywedodd **68%** o bobl **nad oeddent yn cael unrhyw drafferth i dalu biliau ac ymrwymadau credyd**.

Siart 6: Gallu talu pob bil ac ymrwymiad heb drafferth, yn ôl blwyddyn



Mae cyfran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu talu biliau wedi cynyddu'n sylweddol ers gofyn y cwestiwn hwn am y tro cyntaf yn 2012-13, fel y gwelir yn Siart 6.

Hefyd, gofynnwyd rhai cwestiynau i bobl am eu **gallu i brynu bwyd**.

- Dywedodd **2%** nad ydynt yn gallu fforddio **bwyta prydau â chig, pysgod (neu bryd llysieuol cyfatebol)** bob yn ail ddiwrnod o leiaf.
- Dywedodd **4%** eu bod wedi gorfod **mynd heb bryd sylweddol** o ganlyniad i ddiffyg arian un diwrnod o leiaf yn y pythefnos diwethaf.


¹⁴ Dangosydd Cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 19. Ceir fwy o fanylion am sut mae amddifadedd materol yn cael ei gyfrifo yn y bwletin a gyhoeddwyd ar [dlodi](#) yn seiliedig ar ganlyniadau 2016-17.

Defnyddio'r rhyngwrwd

Canfu Arolwg Cenedlaethol 2017-18 bod gan **85%** o aelwydydd fynediad at y **rhyngwrwd** gartref. Gofynnwyd i bobl hefyd a oeddent yn **defnyddio'r rhyngwrwd yn bersonol** gartref, yn y gwaith neu rywle arall. Dywedodd **85%** o oedolion 16 oed neu hŷn eu bod yn defnyddio'r rhyngwrwd. Mae hyn wedi cynyddu'n o 77% yn 2012-13, fel y gwelir yn Siart 7 isod.



Siart 7: Defnydd personol o'r rhyngwrwd, 2012 i 2018




(a) Ni chynhaliwyd yr Arolwg Cenedlaethol yn 2015-16.

Gwirfoddoli

Mae **28%** o bobl yn **gwirfoddoli**.¹⁵ I elusennau, grwpiau ysgol a chlybiau chwaraeon mae pobl yn gwirfoddoli'n fwyaf cyffredin, fel y gwelir yn Siart 8.



Siart 8: Canran y bobl sy'n gwirfoddoli, yn ôl clwb neu sefydliad



¹⁵ Dangosydd Cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 28.


Bodlonrwydd ar y swydd

Gofynnwyd i'r ymatebwyr sydd mewn gwaith roi sgôr ar gyfer eu bodlonrwydd ar eu swydd, ar raddfa o 0 i 10 (lle mae 0 yn golygu 'ddim yn fodlon o gwbl' a 10 yn golygu 'cwbl fodlon'). Rhoddodd **82%** sgôr o 6 neu fwy¹⁶, a'r sgôr gyfartalog ar gyfer holl bobl gyflogedig oedd **7.4**. Roedd hwn yn un o nifer o gwestiynau a ofynnwyd i asesu barn pobl ar elfennau o'u bywyd.



Gofynnwyd i bobl i ba raddau roeddent yn teimlo bod y pethau maent yn eu gwneud yn eu bywyd yn werth chweil (lle mae 0 yn golygu 'ddim yn werth chweil o gwbl' a 10 yn golygu 'yn hollol werth chweil').

Siart 9: Bodlonrwydd swydd yn ôl y teimlad bod y pethau a wneir mewn bywyd yn werth chweil




Mae Siart 9 yn dangos perthynas glir rhwng bodlonrwydd ar y swydd a'r teimlad bod y pethau a wneir mewn bywyd yn werth chweil.

Unigrwydd

Roedd yr arolwg yn cynnwys cyfres o gwestiynau i asesu lefelau unigrwydd hefyd. Yn seiliedig ar y rhain, canfuwyd bod **16%** o bobl yng Nghymru yn **unig**.¹⁷ Roedd pobl mewn amddifadedd materol yn fwy tebygol o deimlo'n unig (roedd 37% o'r rheini mewn amddifadedd materol yn unig, o'i gymharu ag 12% o bobl nad ydynt mewn amddifadedd materol).

Siart 10: Pobl unig yn ôl oedran



Mae pobl o oed 16 i 64 yn fwy tebygol o fod yn unig na phobl 65 oed neu hŷn: gweler siart 10.



¹⁷ Dangosydd Cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 30, cyfrifir gan ddefnyddio [graddfa unigrwydd De Jong Gierveld](#).

Gwybodaeth allweddol am ansawdd

Cefndir

Cynhelir Arolwg Cenedlaethol Cymru gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r canlyniadau a adroddir yn y bwletin hwn yn seiliedig ar gyfweiliadau a gynhaliwyd rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018.

Dewiswyd 23,517 o gyfeiriadau ar hap o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post Defnyddwyr Bach y Post Brenhinol. Aeth y cyfweilwyr i ymweld â phob cyfeiriad a dewis un oedolyn (16 oed neu hŷn) yn yr aelwyd ar hap. Wedyn cynhaliwyd cyfweiliad wyneb yn wyneb 45 munud â'r unigolyn, a oedd yn ymwneud ag amrywiaeth o safbwyntiau, ymddygiadau a nodweddion. Cyflawnwyd 11,381 o gyfweiliadau i gyd. 54.5% oedd y gyfradd ymateb. Mae mwy o wybodaeth am y sut gynhaliwyd yr arolwg i'w gael yn yr [adroddiad technegol](#).

Dehongli'r canlyniadau

Dim ond ar yr ymatebwyr hynny a roddodd ateb i'r cwestiwn perthnasol y mae'r canrannau a nodir yn y bwletin hwn wedi'u seilio. Holwyd am rai pynciau yn yr arolwg i is-sampl o ymatebwyr yn unig ac ni chafodd cwestiynau eraill eu gofyn lle nad oedd y cwestiwn yn berthnasol. Mae sawl rheswm pam na cheir ateb i gwestiynau, gan gynnwys pobl yn gwrthod neu'n methu ateb cwestiwn penodol.

Os nodwyd cysylltiad rhwng dau ffactor, nid yw hyn yn golygu bod un yn achosi'r llall. Bydd angen dadansoddiad manylach i ganfod a yw un ffactor yn achosi newid mewn un arall, neu a yw ffactorau eraill yn bwysicach mewn gwirionedd.

Mae'r canlyniadau wedi eu pwysoli sicrhau bod y canlyniadau'n adlewyrchu dosbarthiad oedran a rhyw poblogaeth Cymru.

Adroddiad Ansawdd

Mae [Adroddiad Ansawdd](#) cryno ar gael, sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach am ansawdd yr arolwg ynghyd â chrynodeb o'r dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu'r canlyniadau.

Statws Ystadegau Gwladol

Mae [Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig](#) wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#). Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau gwladol yn cyrraedd y safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth i'r cyhoedd.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os down i bryderu ynghylch p'un a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod y pryderon â'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan fo'r safonau'n cael eu hadfer.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Cymru sy'n fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach, a chyfrifol ar lefel fyd-eang, sydd â chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru cyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") er mwyn mesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau Llesiant..

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn casglu gwybodaeth am 15 o'r [46 dangosydd](#). Adroddir ar 9 o'r rhain yn y datganiad hwn:

3. Canran yr oedolion sy'n dilyn llai na dau o'r ymddygiadau ffyrdd iach o fyw (peidio ag ysmegu, pwysau iach, bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau bob dydd, peidio ag yfed mwy na'r canllawiau a dilyn y canllawiau gweithgarwch corfforol).

19. Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd sy'n dioddef o amddifadedd materol.

20. Canran y bobl sy'n eithaf bodlon neu'n fodlon iawn ar eu swydd.

24. Canran y bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd / defnyddio'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

28. Canran y bobl sy'n gwirfoddoli.

30. Canran y bobl sy'n unig.

35. Canran y bobl sy'n mynd i ddigwyddiadau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth, neu wedi cymryd rhan ynddynt, dair gwaith y flwyddyn o leiaf.

36. Canran y bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac yn gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg.

38. Canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon tair gwaith yr wythnos o leiaf.

Mae canlyniadau ar gyfer y dangosyddion cenedlaethol i'w gweld fel data agored ar [StatsCymru](#). Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn [Adroddiad Llesiant Cymru](#).

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys un dangosydd cyd-destunol, sef 'canran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg'. Cyfeirir ati yn y ddogfen dechnegol neu'r adroddiad Llesiant yn y ddolen flaenorol.

Rhagor o wybodaeth am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau sydd wedi eu cynnwys yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif i gefnogi'r dangosyddion cenedlaethol a gallent gael eu defnyddio gan fyrdau gwasanaethau cyhoeddus mewn cysylltiad â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

Mae rhagor o fanylion

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch e-bost at: <https://llyw.cymru/statistics-and-research/national-survey/?tab=current&lang=cy>

Diweddariad nesaf

Detholiad bach o ganlyniadau'r arolwg sydd yn y datganiad hwn. Caiff nifer o gyhoeddiadau manylach, penodol i bwnc eu cyhoeddi drwy'r flwyddyn. Mae manylion am y cyhoeddiadau sydd ar y gweill ar gael ar [dudalennau gwe'r Arolwg Cenedlaethol](#).

Hoffem gael adborth gennych

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw elfen o'r ystadegau hyn: anfonwch e-bost i arolygon@llyw.cymru

Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael dan y [Drwydded Llywodraeth Agored f.3.0](#), ac eithrio pan nodir fel arall.

